



Y Defnydd o Lyfrgelloedd ym Mhowys

Mae'r cyhoeddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am ymweliadau â llyfrgelloedd ym Mhowys ac ar draws Cymru rhwng Ebrill 2017 - Mawrth 2018, pan gafodd y data hwn ei gasglu'r tro diwethaf. Cymerwyd yr wybodaeth gan 'Data Cymru' a **gellir cael gafael arni yma.**

Prif ystadegau

- Cafwyd 716,039 o ymweliadau â llyfrgelloedd ym Mhowys yn 2017-18.
- Dim ond mewn chwech o blith y 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru y gwelwyd mwy o ymweliadau â llyfrgelloedd na Phowys, sef: Caerdydd, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Rhondda Cynon Taf, Caerffili a Chastell Nedd Port Talbot.
- Gwelwyd 5,411 o ymweliadau â llyfrgelloedd ym Mhowys fesul 1,000 o'r boblogaeth. Unwaith eto, dim ond chwe awdurdod lleol a oedd â mwy o ymweliadau y pen.
- Gwelodd Powys gyfran uwch o ymweliadau â llyfrgelloedd yng Nghymru na'i chyfran o'r boblogaeth. Roedd yn cyfateb i 4.36% o ymweliadau â llyfrgelloedd ledled Cymru, er mai dim ond 4.25% o'r boblogaeth sydd ganddi.
- Nid yw Powys yn ddiogel rhag tueddiadau ehangach lle y gwelir llai o ddefnydd o lyfrgelloedd. Yn 2010-11 cafwyd 6,752 o ymweliadau â llyfrgelloedd y pen (gan ostwng i 5,411 yn 2017-18).

Ymweliadau â Llyfrgelloedd:

Cyfanswm y Niferoedd

Rhwng Ebrill 2017-Mawrth 2018 gwelwyd 16,407,694 o ymweliadau â llyfrgelloedd ledled Cymru. Gweler y manylion fesul awdurdod lleol isod.

Awdurdod lleol	Cyfanswm yr ymweliadau
Caerdydd	3,331,807
Sir Gaerfyrddin	1,428,231
Abertawe	1,317,597
Rhondda Cynon Taf	862,556
Caerffili	859,608
Castell-nedd Port Talbot	768,789
Powys	716,039
Sir y Fflint	706,332
Bro Morgannwg	631,682
Wrecsam	592,727
Pen-y-bont ar Ogwr	565,246
Sir Fynwy	561,192
Conwy	530,318
Sir Ddinbych	529,611
Casnewydd	490,016
Sir Benfro	453,280
Ynys Môn	411,096
Torfaen	390,067
Gwynedd	346,567
Ceredigion	314,622
Blaenau Gwent	308,752
Merthyr Tudful	291,559

Er gwaethaf natur wledig y sir, gwelodd llyfrgelloedd Powys fwy o ymweliadau na mwyafrif llethol y cynghorau yng Nghymru. Dim ond mewn 6 o awdurdodau lleol y gwelwyd mwy o ymweliadau â llyfrgelloedd.

Nodyn ar ynglyn â'r fethodoleg

Mae nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd yn cyfeirio at: ymweliadau corfforol â llyfrgelloedd, yn cynnwys llyfrgelloedd symudol; rhith-ymweliadau; ac ymweliadau corfforol â mannau gwasanaethau eraill.

Ystyr mannau gwasanaethau eraill yw mannau sy'n caniatáu mynediad i'r cyhoedd ac sydd o leiaf yn cynnig man gwybodaeth â staff, cyfleusterau benthyg stoc a therfynell mynediad cyhoeddus sydd wedi'i chysylltu â'r rhyngwrwyd (ond nid sefydliadau ar gyfer nifer cyfyngedig o bobl neu gymunedau caeedig).

Ni chynhwysir ymweliadau â llyfrgelloedd a gaiff eu rhedeg gan ymddiriedolaethau allanol neu gynghorau cymuned lle nad oes gan yr awdurdod gontract ffurfiol i ddarparu gwasanaethau.

Ymweliadau â Llyfrgelloedd:

Fesul Pen o'r Boblogaeth

Yn 2017-18 gwelodd Powys 5,411 o ymweliadau â llyfrgelloedd fesul 1,000 o'r boblogaeth. Gweler y manylion fesul awdurdod lleol isod.

Awdurdod lleol	Ymweliadau fesul 1000 o'r boblogaeth
Caerdydd	9,225
Sir Gaerfyrddin	7,689
Sir Fynwy	6,016
Ynys Môn	5,901
Sir Ddinbych	5,576
Castell-nedd Port Talbot	5,426
Powys	5,411
Abertawe	5,390
Bro Morgannwg	4,901
Merthyr Tudful	4,883
Caerffili	4,764
Sir y Fflint	4,568
Conwy	4,540
Blaenau Gwent	4,434
Wrecsam	4,377
Ceredigion	4,271
Torfaen	4,240
Pen-y-bont ar Ogwr	3,942
Sir Benfro	3,649
Rhondda Cynon Taf	3,621
Casnewydd	3,278
Gwynedd	2,810

Trwy ddefnyddio'r dull mesur hwn, unwaith eto dim ond chwech o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n gwneud mwy o ddefnydd o lyfrgelloedd na Phowys.

Dylid nodi bod hyn yn cynrychioli gostyngiad yn y defnydd o lyfrgelloedd dros y degawd diwethaf. Gellir cymharu'r ffigur hwn o 5,411 ar gyfer Powys â 6,752 o ymweliadau â llyfrgelloedd fesul pen o'r boblogaeth yn 2010-11.


Nodyn ynglŷn â'r fethodoleg

Caiff nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth ei gyfrifo trwy rannu nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd Cyhoeddus yn ystod y flwyddyn gyda chyfanswm y boblogaeth, a lluosio gyda 1,000.

Dyfodol Llyfrgelloedd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed



Ceir 11 o lyfrgelloedd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed, wedi'u lleoli yn yr ardaloedd a ganlyn:



O blith y rhain, ystyrir bod tair yn llyfrgelloedd 'craidd': Aberhonddu, Llandrindod; ac Ystradgynlais.

Caiff llyfrgell Crucywel ei rhedeg gan yr ysgol uwchradd yn hytrach na'r cyngor.

Ystyrir bod y saith arall yn llyfrgelloedd 'cangen': Llanfair-ym-Muallt; Y Gelli Gandryll; Trefyclo; Llanwrtyd; Llanandras; Rhaeadr; a Thalgarth.

Mae gweinyddiaeth Geidwadol/Annibynnol Cyngor Sir Powys wedi cyhoeddi cynlluniau i dynnu'n ôl y cymorth ariannol ar gyfer y saith llyfrgell gangen, gan adael eu dyfodol yn ansicr. Mae'r Cyngor yn gobeithio arbed oddeutu £200,000 trwy wneud hyn.



"Yn aml rydym yn clywed am lai o ddefnydd o lyfrgelloedd. Am y modd nad yw'r gwasanaethau hyn yn cael eu defnyddio. Rwy'n cyflwyno'r wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn er mwyn dangos ochr arall y geiniog. Yr hyn a ddywed, yn glir fel grisial, yw bod trigolion Powys yn trysori eu llyfrgelloedd.

"Dim ond chwech o blith y 22 ardal cyngor ledled Cymru a welodd fwy o ymweliadau â llyfrgelloedd na Phowys. Mae'r defnydd mawr ym Mhowys i'w weld er gwaethaf natur wledig ein sir, gyda'r preswylydd arferol yn llai tebygol o fod â llyfrgell ar garreg ei ddrws.

"Wrth gwrs, nid yw ein llyfrgelloedd yn ddiogel rhag y duedd ledled Cymru lle y gwelir llai o ddefnydd o lyfrgelloedd. Rhaid i'r rhai sydd eisiau diogelu dyfodol llyfrgelloedd fod yn onest ynglŷn â hyn. Ac yn y cyd-destun hwn y mae angen cynllunio gwasanaethau. Mae angen inni feddwl am ffyrdd gwahanol o wneud pethau, fel gweld cymunedau'n cyfrannu mwy a chydleoli gyda gwasanaethau eraill, sef rhywbeth sydd i'w weld fwyfwy erbyn hyn. Pan fo hyn yn digwydd, rhaid i'r Cyngor ymrwymo'n llawn i'w gefnogi.

"Ond nid yw'r angen i feddwl yn wahanol yn golygu nad oes angen inni feddwl o gwbl. Mae Powys yn trysori ei llyfrgelloedd yn fwy na'r rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol Cymru. Nid yw cynlluniau'r Cyngor i leihau'r cymorth a gaiff llyfrgelloedd cangen yn sylweddol yn adlewyrchu hyn.

"Mae ein llyfrgelloedd yn asedau diwylliannol ac addysgol a all agor gorwelion newydd i bobl. Rwy'n annog y Cyngor i ystyried yr wybodaeth hon wrth bwysu a mesur dyfodol llyfrgelloedd Powys."



Kirsty Williams, Aelod Cynulliad y Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer Brycheiniog a Sir Faesyfed

